

**Gellir cael copi print bras o'r
Hysbysiad hwn oddi wrth:
Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth
Cymru, Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ.**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(CYFFORDD 5 (CYFNEWIDFA FFORDD YR
WYDDGRUG), BWRDEISTREF SIROL
WRECSAM) (GWAHARDD CERBYDAU
DROS DRO) 201-**

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 7 Mawrth 2016 ac yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00) hyd 18 Mawrth 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar naill ai:

- i. y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 ar gefnffordd yr A483;
- ii. y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 5 ar gefnffordd yr A483.

Ni fydd amserau cau'r ffyrdd ymadael yn gwrthdaro â'i gilydd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n dymuno ymadael wrth Gyffordd 5 fydd parhau i'r gyffordd nesaf a dychwelyd ar y gerbyttffordd gyferbyn hyd at Gyffordd 5 ac ymadael ar y ffordd ymadael sydd ar agor.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

M D BURNELL

Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

**A copy of this Notice
in larger print can be
obtained from Orders
Branch, Transport, Welsh
Government, Cathays Park,
Cardiff CF10 3NQ.**

**THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION
5 (MOLD ROAD INTERCHANGE),
WREXHAM COUNTY BOROUGH)
(TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES) ORDER 201-**

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Junction 5 (Mold Road Interchange), Wrexham County Borough.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 07 March 2016 and operate overnight, (20:00 – 06:00 hours) until 18 March 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used for the works, from proceeding along either:

- i. the northbound exit slip road at Junction 5 on the A483 road;
- ii. the southbound exit slip road at Junction 5 on the A483 road;

The slip road closures will not conflict with each other.

The alternative route for vehicles wishing to exit at Junction 5 will to continue to the next junction and return on the opposite carriageway to junction 5 exit on the slip road that remains open.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

M D BURNELL

Transport, Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales